Dyddiadau cofrestru 2025

Y Comisiwn Etholiadol

Dyddiadau cyhoeddi hysbysiadau newid misol y gofrestr etholiadol[1]

Hysbysiad newid[2]	Dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau[3]	Dyddiad cau penderfynu[4]
Cymru a Lloegr: Dydd Iau 2 Ionawr 2025 Yr Alban: Dydd Gwener 3 Ionawr 2025	Cymru a Lloegr: Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024 Yr Alban: Dydd Iau 12 Rhagfyr 2024	Cymru a Lloegr: Dydd Iau 19 Rhagfyr 2024 Yr Alban: Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024
Dydd Llun 3 Chwefror 2025	Dydd Gwener 10 Ionawr 2025	Dydd Llun 20 Ionawr 2025
Dydd Llun 3 Mawrth 2025	Dydd Gwener 7 Chwefror 2025	Dydd Llun 17 Chwefror 2025
Dydd Mawrth 1 Ebrill 2025	Dydd Llun 10 Mawrth 2025	Dydd Mawrth 18 Mawrth 2025
Dydd Iau 1 Mai 2025	Dydd Mercher 9 Ebrill 2025	Dydd Iau 17 Ebrill 2025
Dydd Llun 2 Mehefin 2025	Dydd Gwener 9 Mai 2025	Dydd Llun 19 Mai 2025
Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025	Dydd Llun 9 Mehefin 2025	Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025
Dydd Gwener 1 Awst 2025	Dydd Iau 10 Gorffennaf 2025	Dydd Gwner 18 Gorffennaf 2025
Dydd Llun 1 Medi 2025	Dydd Gwener 8 Awst 2025	Dydd Llun 18 Awst 2025
Dydd Mercher 1 Hydref 2025	Dydd Mawrth 9 Medi 2025	Dydd Mercher 17 Medi 2025
Dydd Llun 3 Tachwedd 2025	Dydd Gwner 10 Hydref 2025	Dydd Llun 20 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi'r gofrestr wedi'r golygu[5]

Dyddiad cyhoeddi	Dyddiad cau i etholwyr newid eu statws optio allan[6]
Cymru a Lloegr: Dydd Iau 2 Ionawr 2025 Yr Alban: Dydd Gwener 3 Ionawr 2025	Cymru a Lloegr: Dydd Iau 19 Rhagfyr 2024 Yr Alban: Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024
Dydd Llun 3 Chwefror 2025	Dydd Llun 20 Ionawr 2025
Dydd Llun 3 Mawrth 2025	Dydd Llun 17 Chwefror 2025
Dydd Mawrth 1 Ebrill 2025	Dydd Mawrth 18 Mawrth 2025
Dydd Iau 1 Mai 2025	Dydd Iau 17 Ebrill 2025
Dydd Llun 2 Mehefin 2025	Dydd Llun 19 Mai 2025
Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025	Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025
Dydd Gwener 1 Awst 2025	Dydd Gwener 18 Gorffennaf 2025
Dydd Llun 1 Medi 2025	Dydd Llun 18 Awst 2025
Dydd Mercher 1 Hydref 2025	Dydd Mercher 17 Medi 2025
Dydd Llun 3 Tachwedd 2025	Dydd Llun 20 Hydref 2025
Dydd Llun 1 Rhagfyr 2025	Dydd Llun 17 Tachwedd 2025

Hysbysiadau o newid etholiad[7]: dyddiadau cyhoeddi yn Lloegr ar gyfer etholiadau lleol 2025

	Cyhoeddi hysbysiad	**Dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau**	**Dyddiad cau ar gyfer penderfynu**
Cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad dros dro cyntaf	Dydd Iau 3 Ebrill 2025	Dydd Mawrth 25 Mawrth 2025	Dydd Mercher 2 Ebrill 2025
Cyhoeddi'r ail hysbysiad newid etholiad dros dro	Rhwng dydd Gwener 4 Ebrill a dydd Mercher 23 Ebrill 2025 (cynhwysol)	6 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu	Y diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyhoeddi
Hysbysiad newid etholiad terfynol	Dydd Iau 24 Ebrill 2025	Dydd Gwener 11 Ebrill 2025	Dydd Mercher 23 Ebrill 2025

[1]Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiadau newid misol ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis sy'n dilyn y mis yr rydych wedi penderfynu gwneud newid i'r gofrestr, oni bai bod y diwrnod gwaith cyntaf yn llai na 14 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad penderfynu (os felly rhaid gwneud y newid ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis canlynol). Nid yw'n ofynnol i chi gyhoeddi hysbysiad newid misol yr un mis ag y byddwch yn cyhoeddi'r gofrestr wedi'i golygu nac yn y ddau fis blaenorol, ond gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu gwneud hynny.

[2] Dyma'r dyddiadau y mae rhaid cyhoeddi hysbysiadau newid misol, a bwrw bod angen newidiadau. Adran 13A(1), (2) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983). Dyma'r 'diwrnodau gwaith' cyntaf oherwydd adran 13A(6) ac 119. Dim ond gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol at ddibenion dyddiadau yng Nghymru a Lloegr oherwydd adran 119(3). Dim ond gwyliau banc yn yr Alban sy'n berthnasol at yr Alban.

[3] Cyfrifir y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau drwy adael pum diwrnod gwaith clir cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu ar wrthwynebiadau i gofrestru (yn y bôn, chwe diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu yw hyn). Y rheswm dros hyn yw bod rheoliad 29(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 yn rhoi pum diwrnod gwaith clir ar gyfer gwrthwynebiadau, gan ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y cais ei gynnwys yn y rhestr geisiadau. Dim ond ar ôl i'r pum diwrnod gwaith clir hynny fynd heibio y gellir gwneud penderfyniad Mae'r rhain yn 'ddiwrnodau gwaith' oherwydd rheoliad 8(2).

[4] Y dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniadau yw 14 diwrnod calendr cyn diwrnod gwaith cyntaf y mis. Y rheswm dros hyn yw bod adran 13A(2) yn nodi bod rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod cyntaf y mis sy'n dilyn yr amser perthnasol (h.y. y penderfyniad) neu os yw'r diwrnod hwnnw yn llai na 14 diwrnod ar ôl y pryd hynny, ar ddiwrnod cyntaf y mis dilynol.

Noder: nid yw'n ddigon derbyn y cais cyn y dyddiad cau 14 diwrnod. Rhaid i ddyddiad y cais fod yn 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniadau (y mae'n rhaid iddo fod yn 14 diwrnod calendr cyn diwrnod gwaith cyntaf y mis) am na ellir ychwanegu'r cais at y rhestr geisiadau i'w hychwanegu at y newid nes y penderfynir arno - adran 13A(1).

[5]Rhaid i chi gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr wedi'i golygu ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis sy'n dilyn y dyddiad y derbynnir cais mewn perthynas â statws optio i mewn neu allan neu, os yw diwrnod cyntaf y mis yn llai na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir y cais, ar ddiwrnod cyntaf y mis dilynol. Pan gaiff y gofrestr ddiwygiedig lawn ei chyhoeddi, rhaid i chi hefyd gyhoeddi fersiwn newydd o'r gofrestr wedi'i golygu. Yn wahanol i hysbysiadau newid y gofrestr lawn, mae'n ofynnol i chi gyhoeddi fersiwn ddiweddar gwbl integredig o'r gofrestr wedi'i golygu yn hytrach na dim ond hysbysiad sy'n amlinellu'r newidiadau. Rhaid i'r gofrestr wedi'i golygu ddiwygiedig fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Rhaid bod y copi ar gael yn eich swyddfa a hefyd mewn unrhyw ddull arall sy'n briodol yn eich barn chi.

[6] Er y gellir gwneud cais i optio mewn neu allan o'r gofrestr wedi'i golygu ar unrhyw adeg, rhaid derbyn y cais o leiaf 14 diwrnod calendr cyn cyhoeddi er mwyn ei gynnwys yn y fersiwn nesaf; os na wneir hyn, caiff ei gynnwys yn y fersiwn a gyhoeddir y mis canlynol.

[7] Mae hysbysiadau newid etholiad ond yn gymwys at gofrestr benodol (e.e. y gofrestr lywodraeth leol, neu'r gofrestr seneddol) ar gyfer yr etholiad ar ddod, ac maent ond yn ychwanegu neu'n tynnu cofnodion mewn perthynas â chyfeiriad yn yr ardal etholiadol sy'n cael ei heffeithio gan yr etholiad. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd etholiad llywodraeth leol yn ymwneud â rhan yn unig o'r ardal gofrestru, bydd yr hysbysiadau etholiad dros dro ond yn berthnasol at benderfyniadau a wneir erbyn y dyddiadau cau gofynnol ar gyfer yr etholiad yn yr ardal honno, a byddant ond yn gymwys at newidiadau i'r gofrestr llywodraeth leol, yn yr achos hwn. Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofrestr seneddol, neu'r rheiny a wneir y tu allan i'r ardal yr effeithir arni gan yr etholiad, yn weithredol pan gyhoeddir yr hysbysiad newid etholiad nesaf, neu pan gyhoeddir y gofrestr ddiwygiedig, p'un bynnag sy'n gynt.